WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 08 Ionawr 2019

Cyflog Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyfeiriaf at eich e-bost isod dyddiedig 05 Rhagfyr 2018, a'ch cais am wybodaeth ynglŷn â chost yr ymchwiliad a chyflog y Prif Weithredwr dros yr amser y cafodd ei atal.

Nid ydym yn cadw'r wybodaeth hon gan fod hwn yn fater parhaus ac mae ' r archwiliad o gyfrifon yn bennaf yn golygu cynnal digon o brofion ar reolaethau a thrafodion er mwyn bod yn sicr bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg.

Efallai y byddwch yn dymuno cysylltu'n uniongyrchol â'r Cyngor i wneud cais am Mae'r wybodaeth a'r wybodaeth am sut i wneud cais ar gael yn: https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Requests-for-information?lang=cy-gb

Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad er budd y cyhoedd ym mis Mawrth 2013 ynghylch methiant mewn trefniadau llywodraethu a diffygion yn y prosesau a fabwysiadwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i bennu cyflog prif swyddogion, ynghyd â gwaith dilynol adroddiad yn 2015. Mae'r adroddiadau hyn a'n hadroddiadau eraill sy'n ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gael yn yr adran gyhoeddiadau ar ein gwefan yn: http://www.audit.wales/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau a bydd chwiliad sy'n defnyddio "Caerphilly" fel gair allweddol yn eich helpu i ddod o hyd i r rhain.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os oes gennych gwestiynau am y ffordd yr ymdriniwyd â'ch cais, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Swyddog gwybodaeth